**Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones AS**
Llywydd, Senedd Cymru

**Right Honourable Elin Jones MS**
Llywydd, Welsh Parliament

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
Llywydd@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
Llywydd@senedd.wales
0300 200 6565

Russell George AS
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

Mike Hedges AS
Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

10 Mehefin 2024

Annwyl Russell a Mike,

**Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru): cymhwysedd deddfwriaethol ac ystyriaethau hawliau dynol**

Yn unol ag adran 110(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (Deddf 2006) a Rheol Sefydlog 26.4, rwyf wedi gosod datganiad yn nodi fy marn ynghylch a fyddai darpariaethau Bil Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Cymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd ai peidio.

Fy marn i yw na fyddai un o ddarpariaethau'r Bil, sef paragraff 4 o Atodlen 2, o fewn cymhwysedd deddfwriaethol gan ei fod yn gofyn am gydsyniad Gweinidog y Goron, ac nid yw cydsyniad o'r fath wedi dod i law adeg ei gyflwyno. Mae fy natganiad ar gymhwysedd deddfwriaethol yn adlewyrchu'r safbwynt hwn.

Fel y gŵyr yr Aelodau, er ei bod yn ofynnol i mi wneud datganiad sy'n nodi fy marn, nid yw cynnwys fy natganiad yn effeithio ar a ganiateir cyflwyno Bil neu a gaiff Bil gwblhau ei hynt drwy'r Senedd ai peidio.

Rwyf hefyd wedi ystyried a yw darpariaethau'r Bil yn gydnaws â'r hawliau a nodir yn y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol ("ECHR"). Er mai fy nghasgliad cyffredinol yw bod y darpariaethau yn y Bil yn gydnaws â'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol, fy marn i yw bod y sefyllfa mewn perthynas â darpariaethau penodol yn y fantol, gyda dadleuon cryf o blaid ac yn erbyn cydnawsedd.

Fel y cyfryw, credaf fod rhinwedd i waith craffu ar y darpariaethau hyn gan y pwyllgorau cyfrifol yn ystod Cyfnod 1.

I helpu i lywio’r gwaith hwn, amgaeaf grynodeb o’r ystyriaethau hawliau dynol sy’n berthnasol i’r Bil. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a chyngor, bydd y swyddogion sy'n cynorthwyo’r Pwyllgor yn fwy na pharod i helpu.

Rwy'n anfon copi o’r llythyr hwn at y Prif Weinidog, y Gweinidog Gofal Cymdeithasol (fel yr Aelod sy'n gyfrifol am y Bil), a holl Aelodau'r Senedd.

Yn gywir,

Y Gwir Anrhydeddus Elin Jones MS/AS

Llywydd

**Ystyriaethau hawliau dynol sy’n berthnasol i'r Bil**

1. Dylid ystyried yn ofalus a yw unrhyw un o ddarpariaethau'r Bil yn ymgysylltu ag unrhyw un o’r hawliau o dan y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (“ECHR”), ond dylid rhoi ystyriaeth benodol i **Erthygl 8 ac Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf i'r ECHR**. Nid yw’r Memorandwm Esboniadol i’r Bil yn cyfeirio o gwbl at farn Llywodraeth Cymru ar effaith bosibl y Bil ar hawliau dynol.

**Erthygl 8**

2. Mae Erthygl 8 o’r ECHR yn datgan fel a ganlyn:

*Everyone has the right to respect for his private and family life, his home and correspondence.*

*There shall be no interference by a public authority with the exercise of this right except such as is in accordance with the law and is necessary in a democratic society in the interests of national security, public safety or the economic well-being of the country, for the prevention of disorder or crime, for the protection of health or morals, or for the protection of the rights and freedoms of others.*

3. Mae’n bosibl y bydd pwyllgorau am ystyried effaith yr adrannau canlynol o’r Bil yn ofalus:

- Mae **adran 4** yn mewnosod Atodlen 1A newydd yn Neddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 (“Deddf 2016”), sy’n darparu ar gyfer trefniadau trosiannol ar gyfer cofrestru fel darparwr gwasanaethau plant o dan gyfyngiad. Bydd Atodlen 1A yn caniatáu i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu dyddiad erbyn pryd y mae’n rhaid i ddarparwyr presennol o wasanaethau plant o dan gyfyngiad sy’n gwneud elw ddod yn ddi-elw, neu beidio â chael eu cofrestru mwyach. Gellir ymgysylltu ag erthygl 8 os bydd darparwyr gwasanaeth yn rhoi’r gorau i ddarparu’r gwasanaeth pan na allant wneud elw mwyach, a fyddai’n cael effaith ar hawliau plant sy’n derbyn gofal gan ddarparwyr o’r fath.

- Mae **adran 13** yn mewnosod darpariaethau newydd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (“Deddf 2014”) i ganiatáu i Weinidogion Cymru awdurdodi “lleoliadau atodol”, pan fydd plentyn yn cael ei leoli o hyd gyda darparwr er elw os yw’r awdurdod lleol yn penderfynu mai dyna’r lleoliad mwyaf priodol ac nad oes opsiwn di-elw ar gael. Eto, byddai hyn yn cael effaith ar hawliau'r plant sydd angen y lleoliad.

- Mae **adran 10** o'r Bil yn diwygio adran 75 o Ddeddf 2014. Mae adran 75, fel y’i drafftiwyd ar hyn o bryd, yn darparu bod dyletswydd gyffredinol ar awdurdod lleol i gymryd camau i sicrhau, cyn belled ag y bo’n rhesymol ymarferol, ei fod yn gallu darparu llety i blant penodol sy’n derbyn gofal o fewn ardal yr awdurdod lleol. Bydd y diwygiad y mae adran 10 yn ceisio ei wneud yn golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y gellir darparu llety o’r fath o fewn neu yn agos i ardal yr awdurdod lleol. Mae hyn yn golygu y gall lleoliadau sydd ar gael i awdurdod lleol fod y tu allan i'w ardal. Mae’r Nodyn Esboniadol i adran 10 yn nodi y bydd amgylchiadau lle gallai plentyn sy’n cael ei leoli y tu allan i ardal awdurdod lleol fod yn agosach at ei gymuned gartref na phe bai’n cael ei leoli mewn rhan wahanol o ardal yr awdurdod lleol, ond gallai’r diwygiad hwn hefyd arwain at blant yn cael eu lleoli ymhellach i ffwrdd o'u cymuned gartref. Mae diben adran 10 wedi’i nodi yn y Nodiadau Esboniadol o ran galluogi awdurdodau

lleol i wneud trefniadau gyda'i gilydd i ddatblygu cartrefi plant a lleoliadau gofal maeth newydd. Mae'r Memorandwm Esboniadol hefyd yn nodi bod Llywodraeth Cymru, lle bynnag y bo modd, am weld lleoliadau'n cael eu darparu i blant a phobl ifanc a fydd yn cynnal eu cysylltiadau â'u cymdogaethau a'u cymunedau lleol, ac yn caniatáu cymaint o barhad yn eu bywydau â phosibl.

**Erthygl 1 o'r Protocol Cyntaf ("A1P1")**

4. Mae A1P1 yn datgan fel a ganlyn –

*Every natural or legal person is entitled to the peaceful enjoyment of his possessions. No one shall be deprived of his possessions except in the public interest and subject to the conditions provided for by law and by the general principles of international law. The preceding provisions shall not, however, in any way impair the right of a State to enforce such laws as it deems necessary to control the use of property in accordance with the general interest or to secure the payment of taxes or other contributions or penalties.*

5. Mae'n bosibl y bydd pwyllgorau am ystyried effaith yr adrannau canlynol o'r Bil yn ofalus:

- Mae **adran 3** yn mewnosod adran 6A newydd yn Neddf 2016, sy'n gosod gofyniad bod gwasanaethau cartrefi gofal plant, gwasanaethau maethu a gwasanaethau llety diogel yn ddi-elw er mwyn cael eu cofrestru i ddarparu gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

- Mae **adran 4** yn gosod gofyniad tebyg ar sail drosiannol i ddarparwyr presennol gwasanaethau plant o dan gyfyngiad.

- Mae **adran 8** yn diwygio Deddf 2016 i gyfeirio at y gofynion a nodir yn yr adran 6A newydd arfaethedig pan fo cais yn cael ei wneud i amrywio cofrestriad presennol i ychwanegu'r ddarpariaeth o wasanaethau plant o dan gyfyngiad.

6. Mae posibilrwydd y bydd unrhyw ddarpariaeth sy'n amddifadu unigolyn o'i eiddo yn ymgysylltu ag A1P1. Mae A1P1 yn dweud bod gan bob person hawl i fwynhad heddychlon o'i eiddo, ac na fydd unrhyw un yn cael ei amddifadu o'i eiddo ac eithrio er budd y cyhoedd ac yn ddarostyngedig i'r amodau a ddarperir drwy'r gyfraith.

7. Caiff y cysyniad o eiddo ei ddehongli'n fras iawn yng nghyfraith achosion y Llys Hawliau Dynol Ewropeaidd. Nid yw wedi'i gyfyngu i eiddo ffisegol a gall gynnwys elw, er nad yw wedi'i ddehongli i olygu enillion yn y dyfodol.

- Mae **adrannau 4(4) a 4(5)** o'r Bil yn diwygio Deddf 2016 fel y caiff Gweinidogion Cymru ragnodi drwy reoliadau ei bod yn drosedd i ddarparwr fethu â chydymffurfio ag amodau a osodir mewn rheoliadau sy'n cael eu gwneud o dan yr Atodlen 1A newydd i Ddeddf 2016. Gellir cosbi trosedd o'r fath â dirwy neu hysbysiad cosb benodedig.

- Yn yr un modd, mae **adran 14(3)** o'r Bil yn ei gwneud yn drosedd i fethu â chyflwyno neu gyhoeddi datganiad blynyddol o fewn y terfyn amser rhagnodedig, ac mae person sy'n euog o drosedd o'r fath yn agored i ddirwy yn dilyn collfarn ddiannod.

8. Mae rhoi dirwy yn ymgysylltu ag A1P1, ond caniateir amddifadu eiddo lle mae'r polisi: wedi'i gyfiawnhau ar sail budd y cyhoedd, yn gymesur â'r nod budd cyhoeddus yr eir ar ei drywydd, yn cael ei wneud yn unol â chyfraith ddomestig a rhyngwladol, a bod ganddo sicrwydd cyfreithiol.